
Codau darlledu Ofcom: diwygiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu a'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 31 Rhagfyr 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Y Cefndir Deddfwriaethol	5
3. Diwygiadau i'r Cod Darlledu	8
4. Newidiadau i'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu	17
5. Y Codau diwygiedig	21

1. Trosolwg

- 1.1 Mae'r Datganiad hwn yn cynnwys diwygiadau y mae Ofcom yn eu gwneud i'r Cod Darlledu a'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ("COSTA") yn dilyn newidiadau deddfwriaethol diweddar.
- 1.2 Daeth Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020 ("Rheoliadau AVMS") i rym ar 1 Tachwedd 2020. Mae'r Rheoliadau'n rhoi'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ("AVMSD") ddiwygiedig ar waith yng nghyfraith y DU. Maen nhw'n diwygio Adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), sy'n pennu amcanion y safonau sy'n sail i God Darlledu Ofcom.
- 1.3 O 1 Ionawr 2021 ymlaen, ni fydd y Gyfarwyddeb AVMS ei hun na'r egwyddor gwlad tarddiad yn berthnasol mwyach fel yr oeddent yn arfer bod yn berthnasol i wasanaethau teledu yn y DU a oedd yn darlledu i'r UE. Fodd bynnag, bydd y rheolau cynnwys a osodwyd gan y Gyfarwyddeb AVMS cyn y dyddiad hwnnw'n dal yn berthnasol. Mae hyn yn golygu y bydd y rheolau a oedd eisoes yn bodoli, a'r rhai yr ydym wedi bod yn ymgynghori arnynt i roi'r Gyfarwyddeb AVMS ar waith, yn dal yn berthnasol. Bydd ein rheolau a oedd yn rhoi'r Gyfarwyddeb AVMS ar waith yn cael eu dehongli fel o'r blaen.
- 1.4 Hefyd, bydd fframwaith y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol ("ECTT") yn dal yn berthnasol, ac mae'r deddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn ei roi ar waith. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau a sefydlwyd yn y DU sy'n darlledu i wledydd ECTT yn gorfod cydymffurfio â'r safonau darlledu sydd wedi'u nodi yn yr ECTT, sy'n cynnwys y safonau ar faint o hysbysebion mae darlledwyr yn gallu eu darlledu ac ymhle maen nhw'n cael eu hamserlennu.
- 1.5 Ar 24 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad am gynigion ar gyfer diwygiadau i'r Cod Darlledu a COSTA o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol ("[yr ymgynghoriad](#)"). Cawsom dri ymateb gan randdeiliaid, ac rydym yn rhoi sylw i'r rhain isod. Ni ddywedodd yr un ymatebydd bod diwygiadau arfaethedig Ofcom i'r Cod Darlledu na'r COSTA yn methu ag adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol diwygiedig yn briodol. Ar ôl ystyried ymatebion y rhanddeiliaid yn ofalus, mae Ofcom wedi penderfynu diwygio'r canlynol, fel y cynigiwyd:
 - Adran Tri (Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin) o'r Cod Darlledu;
 - Adran Naw (Cyfeiriadau masnachol ar y teledu) o'r Cod Darlledu; ac
 - y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ("COSTA");
- 1.6 Fel y nodir yn yr Ymgynghoriad, rydym hefyd yn gwneud newidiadau, nad ydynt yn rhai o sylwedd, i'r Cod Darlledu. Bydd hyn yn cael gwared ar gyfeiriadau nad ydynt yn berthnasol ac yn diweddar cyfeiriadau fel y bo'n briodol.

Ein penderfyniad – yn gryno

Mae Ofcom wedi penderfynu diwygio:

- y diffiniad o iaith casineb yn Adran Tri (Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin) o'r Cod Darlledu er mwyn adlewyrchu'r nodweddion sy'n dod o dan y Siarter Ewropeaidd ar Ryddidau Sylfaenol.
- y rheolau yn Adran Naw (Cyfeiriadau masnachol ar y teledu) o'r Cod Darlledu, i adlewyrchu cyfyngiadau diwygiedig ar osod cynnyrch sy'n effeithio ar genres rhaglenni a chynnyrch penodol ac i ychwanegu rheol gyffredinol yn yr adran hon, i adlewyrchu gofynion ECTT; a
- COSTA, i adlewyrchu darpariaethau hysbysebu'r ECTT.

Rydym hefyd yn gwneud newidiadau, nad ydynt yn rhai o sylwedd, i'r Cod Darlledu, gan gael gwared ar gyfeiriadau nad ydynt yn berthnasol, a diweddarau cyfeiriadau lle bo hynny'n briodol.

Y camau nesaf

- 1.7 Bydd y [Cod Darlledu](#) diwygiedig a'r [COSTA](#) diwygiedig yn dod i rym o 23:00 heddiw (31 Rhagfyr 2020), pan fydd cyfnod pontio Brexit yn dod i ben.

Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb syml lefel uchel yn unig. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

2. Y Cefndir Deddfwriaethol

Rheoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

- 2.1 Mae'r broses o reoleiddio darlledu yn y DU yn cael ei rheoli gan y Gyfarwydddeb AVMS ar hyn o bryd, sy'n seiliedig ar yr egwyddor 'Gwlad Tarddiad'. Mae hyn yn galluogi darparwyr gwasanaethau teledu llinol i ddarlledu gwasanaethau ar draws yr UE, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r wlad sydd ag awdurdodaeth dros y gwasanaeth.
- 2.2 Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud newidiadau i'r gyfraith sy'n berthnasol i ddarlledu yn y DU, ac i'r DU. Cyflwynir y newidiadau gan Rheoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("y Rheoliadau Ymadael")¹, a ddaw i rym yn syth ar ôl diwedd y cyfnod pontio, am 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020.
- 2.3 O dan y Rheoliadau Ymadael, bydd awdurdodaeth dros wasanaethau teledu llinol yn seiliedig ar y canlynol:
- lleoliad y gwasanaeth, e.e. ble mae'r brif swyddfa, ac ym mhle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am amserlennu rhaglenni;
 - i ble mae gwasanaeth yn darlledu, e.e. i'r DU neu i wlad arall; a
 - sut mae gwasanaeth yn darlledu, e.e. drwy gebl, lloeren neu ar-lein.
- 2.4 Mae'r canlynol yn crynhoi'r newidiadau y mae Ofcom wedi'u gwneud i'r trefniadau trwyddedu gwasanaethau teledu² o ganlyniad i'r Rheoliadau Ymadael:
- Trwyddedu cyrchfan yn y DU: mae'n rhaid i unrhyw wasanaeth teledu sy'n ymddangos ar 'Gyfeirydd Rhaglenni Electronig rheoledig yn y DU' gael ei drwyddedu a'i reoleiddio yn y DU. Yr eithriadau i hyn yw gwasanaethau teledu o wledydd sy'n rhan o'r ECTT, yn ogystal â gwasanaethau Gwyddeleg TG4, RTÉ1 ac RTÉ2; ac
 - ECTT: Mae hwn yn gytuniad gan Gyngor Ewrop, sy'n seiliedig ar egwyddor debyg i'r Gyfarwydddeb AVMS o ran gwlad tarddiad. Pan fydd gwasanaethau teledu yn y DU yn darlledu i wlad arall sy'n rhan o'r ECTT, maen nhw'n cael eu rheoleiddio o dan ddarpariaethau'r ECTT. Pan fydd gwasanaethau teledu sy'n darlledu i'r DU wedi'u lleoli mewn gwlad ECTT, ni fydd arnynt angen trwydded gan y DU, ond byddant yn cael eu rheoleiddio gan y wlad honno yn unol â'r safonau sy'n ofynnol gan yr ECTT.
- 2.5 Mae'r Rheoliadau Ymadael yn amodi ei bod yn rhaid i Ofcom drin gwasanaeth fel un y gellir ei dderbyn mewn gwlad ECTT os, ond dim ond os, yw'r gwasanaeth:

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111176733/contents>

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/207821/brexit-avms-statement.pdf

- a) yn gallu cael ei dderbyn gan y cyhoedd ym mhob rhan o'r Wladwriaeth berthnasol, gan ddefnyddio offer safonol i ddefnyddwyr, ac
 - b) ar gael yn y Wladwriaeth berthnasol drwy gyfeirydd rhaglenni electronig sydd:
 - i) yn cael ei drwyddedu neu'n cael ei reoleiddio fel arall o dan gyfraith y Wladwriaeth berthnasol, neu
 - ii) yn cael ei ddarparu gan berson y mae ei brif swyddfa yn y Wladwriaeth berthnasol, os yw'r Wladwriaeth berthnasol yn Wladwriaeth heblaw am y Deyrnas Unedig, ac nad yw ei chyfraith yn rheoleiddio'r broses o ddarparu cyfeiryddion rhaglenni electronig.
- 2.6 Yn y ddogfen hon, mae gwasanaethau y gellir eu derbyn yn y ffordd yma mewn gwlad ECTT ar wahân i'r DU yn cael eu galw'n "Wasanaethau ECTT".
- 2.7 Mae'r gwledydd canlynol wedi llofnodi a chadarnhau'r ECTT: Albania, Awstria, Bosnia a Hertsegofina, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Hwngari, yr Eidal, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Malta, Montenegro, Norwy, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Gweriniaeth Moldofa, Rwmania, San Marino, Serbia, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Y Swistir, cyn Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia, Twrci.
- 2.8 Er y bu'n rhaid newid rhai elfennau o'r gyfraith a oedd yn cyfeirio at y Gyfarwyddeb AVMS, mae'r Rheoliadau Ymadael yn cynnwys darpariaethau sydd wedi'u dylunio i sicrhau na fydd mesurau diogelu'r Gyfarwyddeb AVMS i gynulleidfa oedd yn cael eu colli. Er enghraifft bydd cwtâu ar gyfer Gwaith Ewropeaidd, a chyfyngiadau ar hysbysebu, yn dal mewn grym hyd yn oed ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020

- 2.9 O dan Adran 211 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), mae gan Ofcom ddyletswydd i reoleiddio gwasanaethau darlledu teledu sydd o dan awdurdodaeth y DU, at ddibenion y Gyfarwyddeb AVMS. Mae Adran 319 yn mynnu bod Ofcom yn gosod ac, o bryd i'w gilydd, yn adolygu ac yn diwygio safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a radio. Rhaid i'r safonau hyn sicrhau amcanion y safonau.
- 2.10 Yn 2018 cynhaliodd yr UE adolygiad o'r Gyfarwyddeb AVMS, gan gyflwyno nifer o newidiadau i'r broses o reoleiddio gwasanaethau cyfryngau clyweledol, gan gynnwys teledu. O dan delerau'r Cytundeb Ymadael, ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu deddfwriaeth yr UE hyd at ddiwedd cyfnod pontio Brexit ar 31 Rhagfyr 2020. Bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori yn 2019 ar ei dull arfaethedig o weithredu'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig, a chafodd Rheoliadau AVMS 2020 eu gosod gerbron Senedd y DU ar 30 Medi 2020, gan ddod i rym ar 1 Tachwedd 2020.
- 2.11 Mae'r Rheoliadau AVMS yn cynnwys newidiadau i amcanion y safonau yn Adran 319 o'r Ddeddf.

Effaith

- 2.12 Mae'r newidiadau rydym ni'n eu gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith, fel y nodir uchod, ac felly mae asesiadau priodol o'r effaith wedi cael eu cynnal yn barod. Nid ydym ni o'r farn bod y ffordd mae Ofcom yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn cael unrhyw effaith gynyddol ar unrhyw unigolyn.

3. Diwygiadau i'r Cod Darlledu

Rheoliadau AVMS a'r ECTT

- 3.1 Mae'r ECTT a'r Gyfarwyddeb AVMS yn gosod safonau sy'n berthnasol i gynnwys rhaglenni sy'n cael eu darlledu gan wasanaethau teledu sydd o fewn eu cwmpas. O ran gwasanaethau sy'n dod o dan awdurdodaeth y DU, mae'r safonau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cod Darlledu.
- 3.2 Mae'r adran hon yn egluro'r newidiadau rydym yn eu gwneud i'r Cod Darlledu i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni.

Cymell Casineb

- 3.3 Nes i'r Gyfarwyddeb AVMS gael ei diwygio'n ddiweddar, roedd Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb yn mynnu bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn sicrhau nad oedd gwasanaethau teledu a oedd o dan eu hawdurdodaeth yn cymell casineb o gwbl ar sail hil, rhyw, crefydd na chenedligrwydd. Rhoddir hyn ar waith gan adran 319(2)(b) o'r Ddeddf, sy'n mynnu bod Ofcom yn gosod safonau i sicrhau nad yw gwasanaethau teledu'n cynnwys deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn. Yn fwy cyffredinol, mae adran 319(2)(f) yn mynnu bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn gwarchod y cyhoedd yn ddigonol rhag deunydd tramgwyddus a niweidiol.
- 3.4 Mae diwygiad 2018 i'r Gyfarwyddeb AVMS yn ehangu cwmpas Erthygl 6, er mwyn mynnu bod Aelod-wladwriaethau'n gwahardd cymell trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bobl neu aelod o grŵp ar unrhyw un o'r seiliau y cyfeirir atynt yn Erthygl 21 o'r Siarter Ewropeaidd ar Ryddidau Sylfaenol ("y Siarter").
- 3.5 Mae Erthygl 21 y Siarter yn cynnwys rhestr ehangach o nodweddion gwarchoddedig, ac yn nodi'r canlynol yn ychwanegol at y rheini a nodir uchod: lliw, tarddiad ethnig neu gymdeithasol, nodweddion genetig, iaith, cred, barn wleidyddol neu unrhyw farn arall, aelodaeth o leiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth, anabledd, oed a chyfeiriadedd rhywiol.
- 3.6 Mae'r rheolau yn Adran Dau ac Adran Tri o'r Cod yn sicrhau'r safonau yn adran 319(2)(b) ac (f). Yn benodol, mae Adran Dau o'r Cod yn cynnwys rheolau sy'n darparu amddiffyniadau cyffredinol i gynulleidfaoedd rhag deunydd sy'n debygol o achosi niwed neu dramgwydd. Mae Adran Tri yn darparu amddiffyniad rhag deunydd sy'n ysgogi troseddu, rhag casineb, a rhag triniaeth ymosodol a difriol ac mae'n cynnwys diffiniad o iaith casineb, sy'n nodi'r nodweddion sydd wedi'u cynnwys yn y rheolau.

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

- 3.7 Felly, roeddem yn cynnig diwygio'r diffiniad o iaith casineb i gynnwys y nodweddion, y nodir yn Erthygl 21 o'r Siarter, fel a ganlyn:

Ystyr "iaith casineb": pob ffurf ar fynegiant sy'n lledaenu, yn cymell, yn hyrwyddo neu'n cyfiawnhau casineb oherwydd anoddefgarwch ar sail anabledd, ethnigrwydd, tarddiad cymdeithasol, rhyw, rhywedd, ailbennu rhywedd, cenedligrwydd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, lliw, nodweddion genetig, iaith, barn wleidyddol neu unrhyw farn arall, aelodaeth o leiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu oedran.

- 3.8 Fe wnaethom nodi y byddai'r cynnig hwn yn ehangu'r rhestr o nodweddion y gellid eu defnyddio i wneud canfyddiad o iaith casineb. Fodd bynnag, barn Ofcom oedd bod natur y nodwedd dan sylw yn berthnasol o ran ystyried a yw cynnwys yn gas neu beidio. Fe wnaethom nodi na fyddai'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar y pwyslais y byddem ni'n ei roi ar bwysigrwydd rhyddid mynegiant mewn perthynas â materion gwleidyddol a chynnwys sydd er budd y cyhoedd.
- 3.9 Fe wnaeth Ofcom groesawu safbwyntiau gan randdeiliaid ynghylch a oedd y diwygiadau arfaethedig yn adlewyrchu gofynion y Gyfarwyddeb AVMS yn briodol.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

- 3.10 Roedd un ymatebydd o'r farn bod y diffiniad yn rhy eang o lawer, yn enwedig o ran safbwyntiau "gwleidyddol neu fel arall". Dywedodd yr ymatebydd bod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn iaith casineb yn oddrychol iawn.³

Ymateb Ofcom

- 3.11 Roedd ein cynnig i gynnwys y nodweddion perthnasol yn y diffiniad o 'iaith casineb' yn Adran Tri o'r Cod ar y sail y byddai hyn yn cynnig mwy o dryloywder. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi y byddai cynnwys sy'n gyfystyr ag iaith casineb yn cael ei ddal beth bynnag gan Adran Dau o'r Cod.
- 3.12 Fel y gwnaethom egluro, mae geiriad y diwygiad arfaethedig yn adlewyrchu'r newidiadau i Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb AVMS a'r rhestr estynedig o nodweddion gwarchoddedig o dan Erthygl 21 o'r Siarter ac mae'r Cod yn cael ei ddrafftio yng ngoleuni'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"). Yn benodol, yr hawl i ryddid mynegiant, fel y nodir yn Erthygl 10 o'r Confensiwn, sy'n cwmpasu hawl y gynulleidfa i dderbyn gwybodaeth, syniadau a

³ Gwnaeth yr un unigolyn sylwadau am gynnwys ar lwyfannau rhannu fideos. Nid oedd y rhain yn berthnasol i'n hymgyngoriad, a oedd yn ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau teledu llinol.

deunydd creadigol heb ymyrraeth ond â chyfyngiadau sy'n ofynnol dan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd.

- 3.13 Mae pwysigrwydd rhyddid mynegiant mewn perthynas â materion gwleidyddol a chynnwys sydd er budd y cyhoedd yn ganolog i ddehongliad Ofcom o'r Cod ac nid yw'r diwygiad arfaethedig yn newid hyn.
- 3.14 Felly, mae Ofcom wedi diwygio'r diffiniad o iaith casineb yn Adran Tri o'r Cod Darlledu, fel y cynigwyd.

Adran Naw: Cyfeiriadau masnachol ar y teledu

- 3.15 Mae Adran Naw o'r Cod Darlledu yn cynnwys rheolau sy'n berthnasol i gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu (e.e. cyfeiriadau at gynnyrch a gwasanaethau). Mae'r rheolau hyn wedi cael eu gosod o dan adran 319(2), ac maen nhw'n cynnwys rheolau cyffredinol sy'n berthnasol i bob cyfeiriad masnachol a rheolau mwy penodol ar gyfer mathau penodol o gyfeiriadau masnachol, fel gosod cynnyrch (adran 319(2)(fa)) a nawdd (adran 319(2)(j)). Mae'r rheolau'n helpu i sicrhau bod darlledwyr yn cadw annibyniaeth olygyddol dros raglenni, a bod gwahaniaeth rhwng hysbysebion a chynnwys golygyddol.

Newidiadau sy'n deillio o'r Rheoliadau AVMS

- 3.16 O dan y rheolau presennol, ni chaniateir lleoli cynnyrch mewn unrhyw raglenni newyddion na rhaglenni plant, ni waeth ble mae'r rhaglen yn cael ei gwneud. Hefyd, ni chaniateir lleoli cynnyrch mewn rhaglenni crefyddol, materion defnyddwyr na materion cyfoes a wneir o dan awdurdodaeth y DU.
- 3.17 Mae'r Rheoliadau AVMS yn gweithredu'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig drwy ehangu'r gwaharddiad statudol ar osod cynnyrch mewn rhaglenni crefyddol, materion defnyddwyr neu faterion cyfoes, er mwyn cynnwys yr holl raglenni sy'n dod o dan y genres hyn, ni waeth ble maen nhw'n cael eu gwneud.
- 3.18 Mae'r Ddeddf ddiwygiedig hefyd yn ehangu'r rhestr o gynhyrchion na ellir eu gosod mewn rhaglenni, er mwyn cynnwys gosod gan neu ar ran cwmnïau sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigaréts electronig neu gynnwysyddion ail-lenwi fel eu prif weithgarwch.

Newidiadau sy'n deillio o roi'r ECTT ar waith ar gyfer rhai gwasanaethau

- 3.19 O ran hysbysebion, mae Erthygl 11(5) o'r ECTT yn mynd ymhellach na'r rheol bresennol sy'n mynnu bod gan ddarlledwyr reolaeth olygyddol dros raglenni, gan ei bod yn gwahardd hysbysebwr rhag arfer unrhyw ddylanwad golygyddol dros gynnwys rhaglenni.

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

- 3.20 Roedd Ofcom yn cynnig diwygio Adran Naw o'r Cod Darlledu i adlewyrchu'r newidiadau uchod i'r Rheoliadau AVMS ac i ychwanegu rheol bod Gwasanaethau ECTT yn adlewyrchu gofynion ECTT yn unig.
- 3.21 Nodwyd ein newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Y Rheol Bresennol	Y Rheol Arfaethedig
Amherthnasol – rheol newydd sy'n berthnasol i wasanaethau ECTT	Dim ond i wasanaethau sy'n dod o dan yr ECTT y mae Rheol 9.1(a) yn berthnasol. 9.1(a) Rhaid i ddarlledwyr sicrhau nad yw unrhyw hysbysebwr yn arfer dylanwad golygyddol dros gynnwys rhaglenni.
9.6 Ni chaniateir gosod cynnyrch ac eithrio yn y genres canlynol o raglenni: a) ffilmiau; b) cyfresi a wneir ar gyfer y teledu (neu wasanaethau cyfryngau clyweledol eraill); c) rhaglenni chwaraeon; a d) rhaglenni adloniant ysgafn.	9.6 Ni chaniateir gosod cynnyrch mewn: a) rhaglenni newyddion b) rhaglenni plant
9.7 Ni chaniateir gosod cynnyrch mewn rhaglenni sy'n dod o dan y genres a ganiateir os ydyn nhw'n: a) rhaglenni newyddion; neu'n b) rhaglenni plant.	Mae rheol 9.7 yn berthnasol i raglenni a oedd wedi dechrau cael eu cynhyrchu ar ôl 31 Hydref 2020. 9.7 Ni chaniateir gosod cynnyrch mewn: a) rhaglenni crefyddol b) rhaglenni materion defnyddwyr c) rhaglenni materion cyfoes <u>Nodyn:</u> Mae Rheol 9.12 yn berthnasol i raglenni crefyddol, materion defnyddwyr a materion cyfoes a wnaed cyn 1 Tachwedd 2020. ⁴
9.11 Ni chaniateir gosod y cynnyrch, y gwasanaethau na'r nodau masnach canlynol: a) sigarêts neu gynnyrch tybaco arall;	9.11 Ni chaniateir gosod y cynnyrch, y gwasanaethau na'r nodau masnach canlynol: a) sigarêts neu gynnyrch tybaco arall;

⁴ Bydd Rheol 9.7 bellach yn cynnwys y cyfeiriad cyntaf at raglenni materion cyfoes yn Adran Naw o'r Cod, felly bydd y nodyn, 'Ystyr "rhaglenni materion cyfoes"', sy'n dilyn Rheol 9.12 ar hyn o bryd, yn cael ei symud i ddilyn y Rheol hon (yn ogystal â'r nodyn newydd a ddyfynnir yma a'r nodyn, 'Ystyr "rhaglenni plant"', sydd eisoes yn dilyn y Rheol hon).

<p>b) gosod gan neu ar ran cwmnïau sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigarêts neu gynnyrch tybaco arall fel eu prif weithgarwch; c) meddyginiaeth sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig; na d) sigarêts electronig neu gynwysyddion ail-lenwi.</p>	<p>b) gosod gan neu ar ran cwmnïau sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigarêts neu gynnyrch tybaco arall fel eu prif weithgarwch; c) meddyginiaeth sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig; d) sigarêts electronig neu gynwysyddion ail-lenwi; na e) gosod gan neu ar ran cwmnïau sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigarêts electronig neu gynwysyddion ail-lenwi fel eu prif weithgarwch, os oedd y rhaglen wedi dechrau cael ei chynhyrchu ar ôl 31 Hydref 2020.</p>
<p>9.12 Ni chaniateir gosod cynnyrch yn y rhaglenni canlynol: a) rhaglenni crefyddol; b) rhaglenni cyngor i ddefnyddwyr; na c) rhaglenni materion cyfoes.</p>	<p>9.12 Ni chaniateir lleoli cynnyrch mewn rhaglenni a wneir o dan awdurdodaeth y DU, os: a) yw'r rhaglen wedi dechrau cael ei chynhyrchu cyn 1 Tachwedd 2020; ac b) os yw'r rhaglen yn: I. rhaglen grefyddol; II. rhaglen cyngor i ddefnyddwyr; neu'n III. rhaglen materion cyfoes.</p> <p><u>Nodyn:</u> Mae Rheol 9.7(c) yn berthnasol i raglenni crefyddol, cyngor i ddefnyddwyr neu faterion cyfoes a wneir o dan unrhyw awdurdodaeth ar ôl 31 Hydref 2020. <u>Ystyr "rhaglenni materion cyfoes":</u> Gweler yr ystyr o dan Reol 9.7.</p>

3.22 Fe wnaeth Ofcom groesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch a oedd y diwygiadau arfaethedig hyn i Adran Naw yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Cyfathrebiadau, fel y mae wedi cael ei diwygio gan y Rheoliadau AVMS, a'r ECTT yn briodol.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.23 Derbyniodd Ofcom un cyflwyniad ar y cynigion hyn gan ITV, a oedd yn nodi anghysondeb rhwng y cynigion yn y tabl ar gyfer Rheolau 9.7 a 9.12 a geiriad y rheolau hynny yn y Cod drafft. Awgrymodd ITV ddiwygiadau i'r Cod drafft a fyddai, yn eu barn nhw, yn gwella cysondeb y cyflwyniad ac yn egluro'r dehongliad o'r rheolau hyn.

Ymateb Ofcom

- 3.24 Mae Ofcom wedi diwygio'r rheolau perthnasol a'r nodiadau cysylltiedig yn y Cod i egluro'r rhaglenni y gwaherddir gosod cynnyrch ynddynt.

3.25 Mae hyn yn golygu bod y rheolau'n cael eu newid fel a ganlyn:

Hen Reol	Rheol Newydd
<p>9.7</p> <p>Ni chaniateir gosod cynnyrch mewn rhaglenni sy'n dod o dan y genres a ganiateir os ydyn nhw'n:</p> <p>a) rhaglenni newyddion; neu'n</p> <p>b) rhaglenni plant.</p>	<p>9.7</p> <p>Mae rheol 9.7 yn berthnasol i raglenni a oedd wedi dechrau cael eu cynhyrchu ar ôl 31 Hydref 2020.</p> <p>9.7</p> <p>Ni chaniateir gosod cynnyrch mewn:</p> <p>a) rhaglenni crefyddol</p> <p>b) rhaglenni materion defnyddwyr</p> <p>c) rhaglenni materion cyfoes</p> <p>Nodyn</p> <p>Mae Rheol 9.12 hefyd yn berthnasol i raglenni crefyddol, materion defnyddwyr a materion cyfoes a wnaed o dan awdurdodaeth y DU.</p>
<p>9.12</p> <p>Ni chaniateir gosod cynnyrch yn y rhaglenni canlynol:</p> <p>a) rhaglenni crefyddol;</p> <p>b) rhaglenni cyngor i ddefnyddwyr; na</p> <p>c) rhaglenni materion cyfoes.</p>	<p>9.12</p> <p>Ni chaniateir lleoli cynnyrch mewn rhaglenni a wneir o dan awdurdodaeth y DU, os:</p> <p>a) yw'r rhaglen wedi dechrau cael ei chynhyrchu cyn 1 Tachwedd 2020; ac</p> <p>b) os yw'r rhaglen yn:</p> <p>I. rhaglen grefyddol;</p> <p>II. rhaglen cyngor i ddefnyddwyr; neu'n</p> <p>III. rhaglen materion cyfoes.</p> <p>Nodyn:</p> <p>Mae Rheol 9.7(c) yn berthnasol i raglenni crefyddol, cyngor i ddefnyddwyr neu faterion cyfoes a wneir o dan unrhyw awdurdodaeth ac a ddechreuodd gynhyrchu ar ôl 31 Hydref 2020.</p>

Diwygiadau eraill

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.26 Fe wnaeth Ofcom gynnig gwneud y diwygiadau canlynol i'r Cod Darlledu:

- Cael gwared ar gyfeiriadau a gofynion yn y Cod Trawshyrwyddo sy'n ymwneud â'r broses newid i'r digidol, a gwblhawyd yn 2012;

- Cael gwared ar gyfeiriadau at etholiadau Senedd Ewrop yn Adran Chwech (Etholiadau a refferenda)⁵; a
- Diwygio'r testun esboniadol gyda'r diffiniad o'r "Trothwy" yn Adran Un (Diogelu'r rhai dan ddeunaw oed) o'r Cod er mwyn adlewyrchu Rheol 1.24 y Cod, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2019 ac sy'n caniatáu i raglenni sy'n anaddas i blant, a fyddai fel arfer yn cael eu hamserlennu ar ôl y trothwy, gael eu darlledu cyn 2100 ac ar ôl 0530 ar yr amod bod gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar waith.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.27 Ni chafodd Ofcom unrhyw sylwadau ar y cynigion.

Ymateb Ofcom

3.28 Felly, mae Ofcom wedi diwygio'r Cod Darlledu, fel y cynigiwyd.

Ymatebion eraill

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.29 Roedd un ymatebydd o'r farn, er bod y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn briodol, y dylai Ofcom ystyried diwygio Rheol 2.11. o'r Cod. Mae'r rheol hon yn gofyn bod yn "Rhaid i ddarlledwyr beidio â defnyddio technegau sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges i wylwyr neu wrandawyr, neu o ddylanwadu ar eu meddwl fel arall heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n llwyr ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd." Roedd yr ymatebydd o'r farn y gallai geiriad y rheol hon fod yn gliriach.

Ymateb Ofcom

3.30 Mae'r darpariaethau yn y Cod presennol yn gweithredu gofynion yr AVMSD ar hysbysebu isganfyddol⁶ sydd yr un fath â gofynion yr ECTT.⁷ Ni fyddai'r diwygiadau a gynigwyd gan yr ymatebydd yn cyd-fynd â'r gofynion hynny ac felly nid ydym yn credu ei bod yn briodol eu derbyn.

⁵ Yn yr un modd, fe wnaethom ni gynnig tynnu pob cyfeiriad at etholiadau Senedd Ewrop o reolau Ofcom ar Ddarllediadau Etholiadol Pleidiau a Refferenda (gweler https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0035/99188/pprb-rules-march-2017.pdf).

⁶ Erthygl 9

⁷ Erthygl 13

Diwygiadau pellach

- 3.31 Mae Ofcom wedi nodi rhagor o newidiadau nad ydynt yn rhai o sylwedd y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn diweddarau'r Cod Darlledu. Er enghraifft, mae cyfeiriad at “Cynulliad Cymru” yn Adran Chwech (Etholiadau a refferenda) wedi ei ddiwygio i “Senedd Cymru”.⁸ Hefyd, gan fod y Cod Darlledu bellach yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ofcom ac nad yw ar gael mewn print, rydym wedi lleihau'r deunydd ategol a ddarperir – mewn atodiadau, er enghraifft – gan gadw dim ond yr hyn sy'n ymwneud â chynigion ariannol ac argymhellion buddsoddi, sy'n cynnwys darpariaethau y mae'n rhaid i bob darlledwr gadw atynt (o dan Reolau 9.35 a 10.3). Felly, mae croesgyfeiriadau wedi cael eu dileu neu eu diwygio yn gyffredinol.

⁸ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2020/1/schedules>

4. Newidiadau i'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu

Newidiadau sy'n deillio o'r Rheoliadau AVMS

- 4.1 Mae rheolau sy'n berthnasol i faint o hysbysebion y gall darlledwr eu darlledu, ac ym mhle mae hysbysebion yn cael eu hamserlennu, wedi'u nodi yn y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ("COSTA").
- 4.2 Mae'r ECTT yn cynnwys gofynion sy'n berthnasol i hysbysebion.
- 4.3 Mae'r darpariaethau hysbysebu yn yr ECTT yn wahanol i'r rheini sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan COSTA yn y meysydd canlynol:
- Mae'r ECTT yn cynnwys diffiniad o hysbysebion sy'n cynnwys deunydd sydd â'r bwriad o hyrwyddo achos neu syniad, neu greu rhyw effaith arall y mae'r hysbysebwr neu'r darlledwr yn dymuno ei chael.
 - Mae'r ECTT yn cynnwys gofynion gwahanol ar faint o hysbysebion y gellir eu darlledu ac ym mhle y gellir eu hamserlennu, gan gynnwys y gofyniad ei bod yn rhaid cael cyfnod o 20 munud o leiaf rhwng egwylliau hysbysebu yn gyffredinol. Mae cyfyngiad hefyd ar nifer y cyfnodau telesiopa y gellir eu darlledu.

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

- 4.4 Roedd Ofcom yn cynnig ychwanegu rhan newydd at COSTA, a fyddai'n berthnasol i Wasanaethau ECTT yn unig, gan adlewyrchu darpariaethau'r ECTT. Nodwyd ein cynigion fel a ganlyn:

Cyfeirnod/Rheol COSTA bresennol (Rhan A erbyn hyn)	Cyfeirnod/ Rheol COSTA newydd Rhan B	Adran berthnasol o'r ECTT
<p><u>Diffiniadau</u></p> <p>ystyr 'hysbysebion teledu' yw unrhyw fath o gyhoeddiad a ddarlledir boed yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth debyg neu a ddarlledir at ddibenion hunanhyrwyddo gan gwmni cyhoeddus neu breifat neu fod dynol mewn cysylltiad â masnach, busnes, crefft neu broffesiwn er mwyn hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau i'w cyflenwi, gan</p>	<p><u>Diffiniadau</u></p> <p>ystyr 'hysbysebion teledu' yw unrhyw fath o gyhoeddiad a ddarlledir boed yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth debyg neu a ddarlledir at ddibenion hunanhyrwyddo gan gwmni cyhoeddus neu breifat neu fod dynol, gyda'r bwriad o hyrwyddo cynnyrch neu wasanaeth i'w werthu, ei brynu neu ei rentu, hyrwyddo achos neu syniad, neu greu rhyw effaith arall y mae'r hysbysebwr</p>	<p>Erthygl 2(f)</p>

<p>gynnwys rhwymedigaethau a hawliau eiddo sefydlog, yn gyfnewid am dâl.</p>	<p>neu'r darlledwr ei hun yn dymuno ei chael.</p>	
<p><u>Rheol 1</u> Rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod hysbysebion teledu a thelesiopa yn hawdd eu hadnabod, ei bod yn hawdd gwahaniaethu rhwng hynny a chynnwys golygyddol, a'u bod yn cael eu cadw ar wahân i rannau eraill o'r gwasanaeth rhaglenni. Gwneir hyn drwy ddulliau optegol (gan gynnwys dulliau gofodol); gellir defnyddio signalau acwstig hefyd.</p>	<p><u>Rheol 1</u> Rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod modd gwahaniaethu'n glir rhwng hysbysebion teledu a thelesiopa, a'u bod yn amlwg yn wahanol i eitemau eraill y gwasanaeth rhaglenni drwy ddulliau gweledol a/neu acwstig.</p>	<p>Erthygl 13(1)</p>
<p><u>Rheol 6</u> Rhaid i gyfnodau telesiopa fod yn 15 munud o hyd o leiaf.</p>	<p><u>Rheol 6</u> (a) Rhaid i gyfnodau telesiopa fod yn 15 munud o hyd o leiaf. (b) Ni chaiff yr holl gyfnodau telesiopa gyda'i gilydd bara am fwy na thair awr y dydd. (c) Caiff darlledwyr ddarlledu hyd at wyth cyfnod telesiopa bob dydd.</p>	<p>Erthygl 12(3)</p>
<p><u>Rheol 9</u> Bydd slotiau telesiopa a hysbysebion teledu unigol, ar wahân i'r rheini wrth ddarlledu digwyddiadau chwaraeon, yn dal yn eithriad.</p>	<p><u>Rheol 9</u> (a) Rhaid i slotiau telesiopa a hysbysebion gael eu darlledu mewn blociau sy'n cynnwys o leiaf ddau slot/hysbyseb. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i raglenni sy'n dod o dan Reol 9(c), isod. (b) Oni nodir yn wahanol isod, pan fydd slotiau telesiopa neu hysbysebion yn torri ar draws rhaglenni, dylai cyfnod o ugain munud o leiaf fynd heibio rhwng pob egwyl telesiopa neu hysbysebu olynol o fewn y rhaglen. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i raglenni sy'n dod o dan Reol 9(c), isod. (c) Mewn rhaglenni sy'n cynnwys rhannau awtonomaidd, neu mewn rhaglenni chwaraeon a pherfformiadau a digwyddiadau â strwythur tebyg sy'n cynnwys egwylliau, dim ond rhwng y rhannau neu yn ystod yr egwylliau y</p>	<p>Erthygl 14</p>

	dylid cynnwys slotiau thelesiopa a hysbysebion.	
<u>Rheol 10</u> Dim ond unwaith ym mhob cyfnod wedi'i amserlennu o 30 munud o leiaf y gellir torri ar draws darllediad o ffilmiau a rhaglenni newyddion gyda hysbysebion neu delesiopa.	<u>Rheol 10</u> Gellir tarfu ar ddarlledu ffilmiau drwy hysbysebu neu delesiopa unwaith ar gyfer pob cyfnod cyfan o o leiaf 45 munud, ar yr amod bod y ffilm yn para o leiaf 45 munud. Caniateir toriad pellach os yw'r hyd a drefnwyd o leiaf 20 munud yn hwy na dau neu ragor o gyfnodau cyflawn o 45 munud.	Erthygl 14(5)
<u>Rheol 12</u> Ni ddylai hysbysebion dorri ar draws rhaglenni plant sy'n para 30 munud neu lai. Unwaith ym mhob cyfnod wedi'i amserlennu o o leiaf 30 munud y gellir torri ar draws darllediad o raglenni plant sy'n para mwy na 30 munudau.	<u>Rheol 12</u> Ni ddylai hysbysebion na thelesiopa dorri ar draws ar unrhyw raglen newyddion, materion cyfoes, rhaglenni dogfen, rhaglenni crefyddol neu raglenni plant sy'n para llai na 30 munud.	Erthygl 14(5)

- 4.5 Croesawodd Ofcom safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch a oedd y diwygiadau arfaethedig hyn i COSTA yn adlewyrchu gofynion yr ECTT, ynghyd ag unrhyw sylwadau eraill yr oeddent am eu gwneud.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

- 4.6 Derbyniodd Ofcom ddau ymateb gan ddarlledwyr unigol am ein diwygiadau arfaethedig i COSTA. Roedd un yn gwbl gyfrinachol ndd ni chodwyd unrhyw faterion o bwys. Roedd y llall gan ddarlledwr Teledu Lleol a oedd yn gwrthwynebu i'r defnydd o Reol 10 bresennol COSTA i wasanaethau Teledu Lleol. Ym marn y darlledwr roedd yn cyfyngu "rhaglenni masnachol a golygyddol optimaiidd" ar wasanaethau o'r fath, gan ychwanegu nad oedd yn ofynnol dan gyfaith y DU.
- 4.7 Yn ychwanegol, cawsom ymateb gan COBA, sef y corff diwydiant ar gyfer darlledwyr masnachol a gwasanaethau ar-alw, a ofynnodd am gyfnod o weithredu o chwe mis ar gyfer gofynion Gwasanaethau ECTT ar y sail y byddai'n anodd i ddarlledwyr gydymffurfio â hynny ac y byddai'n creu ymyrraeth. Credir bod cysail ar gyfer gyn wedi ei osod, ac felly bod cyfnod eisoes wedi ei gymeradwyo gan Ofcom ar gyfer gwasanaethau a oedd angen trwydded Ofcom pe byddent yn parhau i ddarlledu i mewn i'r DU o'r UE ar ôl i'r cyfnod pontio Brexit ddod i ben.

Ymateb Ofcom

- 4.8 Ymatebodd Ofcom yn uniongyrchol i'r darlledwr a gyflwynodd ei safbwyntiau'n gyfrinachol, a oedd heb godi unrhyw faterion sylweddol.
- 4.9 Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i weithredu'r gofynion hyn o'r ECTT ac nid oes ganddo'r disgresiwn i hepgor y gofynion am 6 mis⁹. Roedd gweithredu'r cyfnod o chwe mis a ganiatawyd i ddarlledwyr UE a oedd angen trwyddedau Ofcom ar ôl i'r cyfnod pontio Brexit ddod i ben, wedi ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth¹⁰.
- 4.10 Nid oedd y cyflwyniad mewn perthynas â rheol 10 o COSTA yn gysylltiedig â'r newidiadau yr oedd Ofcom yn ymgynghori yn eu cylch, a byddai angen adolygiad o COSTA, sef rhagor o waith a rhagor o ymgynghori. Yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr ymgynghoriad, nod ein diwygiadau arfaethedig oedd adlewyrchu'r newidiadau gofynol gan AVMSD ac ECTT yn ein Codau. Rydym wedi nodi'r ymateb.
- 4.11 Rydym felly wedi diwygio COSTA, yn unol â'r bwriad.

⁹ Gweler adran 319(2)(i) a 319(7) o Ddeddf Gyfathrebu 2003

¹⁰ Gweler rheoliad 5 o Reoliadau Darlledu (Diwygiad) (Gadael yr UE) 2019 (SI 2019/224)

5. Y Codau diwygiedig

Y camau nesaf

- 5.1 Mae'r Cod Darlledu diwygiedig a'r COSTA diwygiedig yn dod i rym am 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020.